Rhif: WG30133

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Cyllid cymorth myfyrwyr i fyfyrwyr sy’n preswylio fel arfer yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 22 Tachwedd 2016
Camau i’w cymryd: Ymatebion erbyn 14 Chwefror 2017

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar weithredu'r newidiadau arfaethedig i gyllid cymorth myfyrwyr yng Nghymru. |
| **Sut i ymateb** | Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod erbyn 14 Chwefror 2017 fan hwyraf. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Rhowch unrhyw gyfeiriadau at y rhyngrwyd, dogfennau neu wybodaeth a allai fod o fudd i ymgynghoreion e.e. cyfeiriad gwefan yr ymgynghoriad, atodiad manwl i'r ymgynghoriad |
| **Manylion cyswllt** | Am ragor o wybodaeth:<br><br>Is-adran Addysg Uwch<br>Y Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>email: hepolicy@wales.gsi.gov.uk |
| **Diogelu data** | Sut y bydd eich barn a'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi inni'n cael ei defnyddio<br><br>Bydd unrhyw ymateb y byddwch yn ei anfon atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad hwn. Efallai y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn ei weld hefyd er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Efallai y |

byddwn hefyd yn cyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel rheol, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y sawl neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol. Os nad ydych eisiau i'ch enw neu eich cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Yna byddwn yn dileu'r wybodaeth honno.

Efallai y bydd enwau a chyfeiriadau yr ydym yn eu dileu'n cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, ond nid ydym yn credu y byddai hynny'n digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth a ddelir gan nifer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth nas cyhoeddwyd. Fodd bynnag, mae'r ddeddf hefyd yn ein caniatáu i beidio â datgelu gwybodaeth o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth nad ydym wedi ei datgelu, bydd raid i ni benderfynu ei rhyddhau neu beidio. Os bydd rhywun wedi gofyn am beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, mae honno'n ffaith bwysig y byddem yn ei hystyried. Fodd bynnag, ar brydiau efallai y bydd yna resymau pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad rhywun, er iddo ofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn er mwyn gofyn am ei farn cyn i ni benderfynu'n derfynol ynglŷn â datgelu'r wybodaeth.

## Cynnwys

| | |
|---|---|
| **Beth yw'r prif faterion?** | **2** |
| **Y sefyllfa ar hyn o bryd** | **2** |
| **Yr achos dros newid** | **6** |
| **Ein cynigion** | **6** |
| **Effaith** | **13** |
| **Gweithredu** | **13** |
| **Ymatebion** | **13** |

**Atodiad (nid yn y ddogfen) – Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion Adolygiad o Gyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru**

## Beth yw'r prif faterion?

1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â gweithredu newidiadau arfaethedig i drefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr gan Weinidogion Cymru. Mae Gweinidogion Cymru'n darparu cymorth i fyfyrwyr cymwys, sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, ac sy'n astudio cwrs addysg uwch dynodedig yn y Deyrnas Unedig. Mae Gweinidogion Cymru'n awyddus i sicrhau bod y system cyllid myfyrwyr yn diwallu anghenion myfyrwyr a'r sector addysg uwch yng Nghymru, yn cyfrannu at les pobl Cymru ac yn fforddiadwy.

2. Mae'r cynigion yn cael eu llywio gan ganfyddiadau'r Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru, dan gadeiryddiaeth Syr Ian Diamond, a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill 2014 a mis Medi 2016. Comisiynwyd yr Adolygiad gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyngor annibynnol i sicrhau bod y system cyllid myfyrwyr yn effeithiol ac yn diwallu anghenion myfyrwyr a'r sector AU cyfan yng Nghymru. Roedd adroddiad interim y Panel Adolygu yn crynhoi llawer o'r sail dystiolaeth a llywiodd yr Adolygiad ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015. Ar 27 Medi 2016, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg adroddiad terfynol y Panel Adolygu, a oedd yn cynnwys argymhellion ar gyfer cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr.

3. Mae adroddiadau Adolygiadau Diamond i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru: http://llyw.cymru/topics/educationandskills/highereducation/review-of-he-funding-and-student-finance-arrangements/?skip=1&lang=cy

4. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hymateb manwl i'r argymhellion sydd ar gael fel atodiad ar wahân i'r ddogfen hon. Mae argymhellion y Panel Adolygu'n sail i'n cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon.

## Y sefyllfa ar hyn o bryd

5. Bu Adolygiad Diamond yn ymgynghori'n eang am ddwy flynedd ar y materion sy'n gysylltiedig â chyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr. Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo'r egwyddorion sy'n sail i argymhellion y Panel Adolygu, fel y cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar 27 Medi[1]. Yn awr mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y dull mwyaf priodol o weithredu'r newidiadau a gynigiwyd o ganlyniad i Adolygiad Diamond ac felly'n gofyn am farn ar weithredu ymateb Llywodraeth Cymru yn ymarferol.

6. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwneud pwynt o osgoi ailadrodd yr ymarfer a gynhaliwyd gan banel Adolygiad Diamond. Mae Llywodraeth Cymru'n credu bod y broses adolygu ei hun wedi bod yn rhaglen helaeth o ymgysylltu ac ymgynghori, a bod yr argymhellion yn ganlyniad i ystyriaeth fanwl ac eang iawn o'r prif faterion yn ymwneud â chyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr. Roedd gan yr holl randdeiliaid allweddol a'r prif bleidiau gwleidyddol gynrychiolaeth ar y Panel Adolygu a derbyniwyd tystiolaeth gan amrywiaeth eang o ffynonellau. Roedd yr ymarfer

[1] Cofnod y trafodion Llywodraeth Cynulliad Cymru 27 Medi 2016: http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/pages/rop.aspx?meetingid=3992&language=en&assembly=5&c=Record%20of%20Proceedings#426246

ymgynghori'n cynnwys cais agored am dystiolaeth ysgrifenedig a gafodd ymateb eang gan y cyhoedd.

7. Mae'r holl randdeiliaid yn awyddus iawn i weld y system cyllido a chymorth myfyrwyr newydd yn cael ei chyflwyno erbyn dechrau blwyddyn academaidd 2018/19. Er mwyn gallu gwneud hyn a rhoi amser i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ddatblygu'r systemau TG i weithredu'r newidiadau, nid yw'n bosibl gwneud unrhyw newidiadau mawr i gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd 2018/19.

8. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo egwyddorion yr adroddiad a derbyn mwyafrif llethol argymhellion Adolygiad Diamond. Felly, mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar gasglu barn ar ddatblygu a gweithredu polisi a gyflwynir ar ôl 2018/19. Mae pobl yn y sector a rhanddeiliaid eraill mewn sefyllfa dda i ddarparu tystiolaeth a barn ar faterion gweithredu'r polisïau. Fodd bynnag, rydym yn croesawu sylwadau ar ein cynigion gan bawb sydd â diddordeb mewn addysg uwch.

9. D.S. Blynyddoedd academaidd yw'r holl flynyddoedd y cyfeirir atynt yn y ddogfen ymgynghori hon, oni nodir fel arall.

## Cymorth i fyfyrwyr

10. Mae Gweinidogion Cymru yn gallu darparu cymorth i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n astudio cwrs addysg uwch drwy rinwedd adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Mae rheoliadau'n cael eu llunio bob blwyddyn (Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2015 fel y'u diwygiwyd, ar hyn o bryd) yn nodi'r cymorth sydd ar gael. Mae manylion y cymorth hwn yn gymhleth a dim ond y prif nodweddion sydd wedi'u crynhoi isod.

11. I roi rhywfaint o gefndir, ar 30 Tachwedd 2010 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai darparwyr addysg uwch yng Nghymru yn gallu codi ffioedd dysgu o hyd at £9,000 y flwyddyn ar gyfer myfyrwyr llawn amser israddedig o 2012/13 ymlaen. Mae'r terfyn ffioedd yma'n parhau i fod mewn grym ar gyfer y rhan fwyaf o ddarparwyr addysg uwch.

12. Mae cymorth wedi'i rannu'n ddwy elfen: cymorth i alluogi'r myfyriwr i dalu ffioedd dysgu a chymorth i dalu costau byw – cymorth 'cynhaliaeth'. Darperir cymorth penodol arall mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft, i gynorthwyo pobl anabl gyda'u hanghenion penodol.

13. Gweinidogion Cymru sy'n darparu'r cymorth hwn drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru. Mae'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr newydd a ddechreuodd eu hastudiaeth yn 2016/17 wedi'i nodi isod.

### Cymorth i israddedigion llawn amser

14. Mae'r pecyn cymorth myfyrwyr i fyfyriwr israddedig llawn amser newydd sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru yn cynnwys yr elfennau canlynol.

*Cymorth ffioedd dysgu*

- Benthyciad ffioedd dysgu, nad yw'n amodol ar brawf modd, hyd at £3,900 i astudio mewn sefydliadau a ariennir gan arian cyhoeddus;
- grant ffioedd dysgu, nad yw'n amodol ar brawf modd, i dalu am y gwahaniaeth rhwng uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu sydd ar gael, a'r ffioedd dysgu a godir gan sefydliadau a ariennir gan arian cyhoeddus (uchafswm y grant yw £5,100 mewn achosion lle codir ffioedd dysgu o £9,000);
- benthyciad ffioedd dysgu, nad yw'n amodol ar brawf modd, hyd at £6,000 i astudio mewn sefydliadau preifat.

*Cymorth cynhaliaeth*

- Grant cynhaliaeth yn amodol ar brawf modd, hyd at £5,161 yn dibynnu ar incwm yr aelwyd;
- benthyciad cynhaliaeth yn amodol ar brawf modd:
    - hyd at £4,786 os yn byw yng nghartref rhieni;
    - hyd at £6,183 os yn byw i ffwrdd o gartref rhieni;
    - hyd at £8,662 os yn astudio yn Llundain;
    - hyd at £7,372 os yn astudio dramor (fel rhan o gwrs wedi'i leoli yn y DU).

15. Gall cymorth pellach fod ar gael ar ffurf grantiau eraill yn cynnwys y Grant Gofal Plant, Grant Oedolion Dibynnol, Lwfans Dysgu i Rieni a Lwfans Myfyrwyr Anabl. Trothwy incwm blynyddol yr aelwyd ar gyfer derbyn grant cynhaliaeth lawn yw £18,370 neu lai. Mae grant rhannol ar gael pan fo incwm yn uwch na £18,370 ond mae'n llai na £50,020.

*Ad-dalu*

16. Efallai y bydd modd cael hyd at £1,500 wedi'i ddileu o'r benthyciad cynhaliaeth ar ôl dechrau ad-dalu. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid ad-dalu benthyciadau ffioedd dysgu a benthyciadau cynhaliaeth os ydych chi'n ennill £21,000 neu fwy yn achos myfyrwyr a ddechreuodd eu hastudiaethau ar neu ar ôl 1 Medi 2012 (wedi'i rewi tan 2021). Bydd gofyn i unrhyw un â chyflog blynyddol dros y swm hwn i ad-dalu ei fenthyciad, a bydd yn talu 9% o'i enillion dros y trothwy hwn. Yn achos myfyrwyr llawn amser, mae telerau ad-dalu'n weithredol o'r flwyddyn dreth sy'n dilyn graddio.

## Cymorth i israddedigion rhan-amser

17. Mae'r pecyn cymorth i fyfyrwyr ar gyfer myfyrwyr israddedig rhan-amser sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru (yn seiliedig ar ddwyster cwrs gofynnol o 25% o gymharu â chwrs llawn amser) yn cynnwys yr elfennau canlynol.

*Cymorth ffioedd dysgu*

- Benthyciad ffioedd dysgu, nad yw'n amodol ar brawf modd, hyd at £2,625 os yn astudio mewn prifysgol neu goleg a ariennir gan arian cyhoeddus yng Nghymru, neu sefydliad preifat yng Nghymru;

- Benthyciad ffioedd dysgu, nad yw’n amodol ar brawf modd, o £6,750 os yn astudio mewn prifysgol neu goleg a ariennir gan arian cyhoeddus y tu allan i Gymru ond yn y Deyrnas Unedig;
- Benthyciad ffioedd dysgu, nad yw’n amodol ar brawf modd, o £4,500 os yn astudio mewn prifysgol neu goleg preifat y tu allan i Gymru ond yn y Deyrnas Unedig.

*Cymorth ar gyfer treuliau cwrs*

- Mae grant cwrs sy’n amodol ar brawf modd o hyd at £1,155 ar gael ar gyfer llyfrau, teithio a gwariant arall sy’n gysylltiedig â’r cwrs os yw incwm yr aelwyd yn llai na £26,095. Mae grant cwrs rhannol ar gael pan fo incwm yr aelwyd rhwng £26,095 a £28,180.

18. Gall cymorth pellach fod ar gael ar ffurf grantiau eraill yn cynnwys y Grant Gofal Plant, Grant Oedolion Dibynnol, Lwfans Dysgu i Rieni a Lwfans Myfyrwyr Anabl.

*Ad-dalu*

19. Ar hyn o bryd, mae’n rhaid ad-dalu benthyciadau os ydych chi’n ennill £21,000 neu fwy. Yn achos myfyrwyr rhan-amser, mae telerau ad-dalu’n weithredol o ddechrau’r flwyddyn dreth ganlynol sy’n dechrau ar 6 Ebrill ar ôl i’r myfyriwr orffen bod yn gymwys am gymorth ariannol neu ddechrau’r flwyddyn dreth ganlynol sy’n dechrau ar 6 Ebrill ar ôl pedair blynedd o ddyddiad dechrau’r cwrs, pa un bynnag sydd gyntaf. Bydd gofyn i unrhyw un â chyflog blynyddol dros y trothwy ad-dalu ei fenthyciad, a bydd yn talu 9% o’i enillion dros y trothwy hwn.

**Cymorth i ôl-raddedigion**

*Cymorth*

20. Ym mis Mawrth 2016, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer cyllid cymorth i fyfyrwyr ôl-raddedig sy’n dechrau astudio’n llawn amser neu ran-amser yn 2017/18. Yng ngoleuni Adolygiad Diamond, polisi cymorth interim fydd hwn, i’w adolygu maes o law. Nid yw’r polisi wedi’i gyflwyno eto. Y bwriad yw galluogi myfyrwyr a fyddai’n gymwys am gymorth i israddedigion fod yn gymwys am gymorth i ôl-raddedigion, i sicrhau cysondeb mewn polisi a dilyniant i fyfyrwyr. Byddai’r cymorth yn cael ei ddarparu ar ffurf benthyciad o £10,000, a fyddai’n cyfrannu at gostau ac yn cael ei dalu i’r myfyriwr.

*Ad-dalu*

21. Byddai gofyn i fyfyrwyr ad-dalu’r benthyciad unwaith mae eu hincwm yn cyrraedd £21,000 y flwyddyn (y trothwy hwn i’w rewi tan 2021). Byddai gofyn i’r benthyciadau gael eu had-dalu’r un pryd ag unrhyw ddyled israddedig ddyledus arall ar gyfradd o 6% o’u cyflog. Y mynegai prisiau manwerthu a 3% fydd y gyfradd llog.

## Yr achos dros newid

22. Comisiynodd Llywodraeth Cymru Adolygiad Diamond i gydnabod yr angen i asesu a oedd y system cyllido addysg uwch a chymorth myfyrwyr yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Rhoddodd Adolygiad Diamond ystyriaeth fanwl i'r achos dros newid y cymorth a gynigir i fyfyrwyr. Mae ailadrodd y dadansoddiad hwnnw y tu hwnt i gwmpas y ddogfen hon a gallwch ddarllen adroddiad terfynol Adolygiad Diamond os dymunwch[2]. Roedd yr adroddiad hwnnw'n crynhoi'r sail resymegol dros newid, a diben newid, fel a ganlyn:

> 'Yn ganolog i'n cynigion mae ail-lunio'r pecyn cymorth i fyfyrwyr i symud tuag at system syml sy'n cydnabod costau cyfannol astudiaethau addysg uwch i fyfyrwyr; ac sy'n gwrando ar y sylwadau cyson gan fyfyrwyr mai cymorth cynhaliaeth sy'n rhoi'r hyblygrwydd iddynt reoli eu sefyllfa ariannol ac, yn achos rhai myfyrwyr, i oresgyn yr heriau ariannol sy'n gysylltiedig â chyfnod o astudiaeth addysg uwch.
>
> Rydym yn argymell, felly: bod cymorth cynhaliaeth yn ddigon i dalu costau byw pob myfyriwr israddedig llawn amser; bod myfyrwyr israddedig rhan-amser yn derbyn cymorth sy'n sicrhau lefel ehangach o gymorth cyfwerth ar draws y ddau ddull astudio a bod pecyn cymorth yn cael ei ddarparu i gyllido graddau Meistr ôl-raddedig a addysgir.
>
> Yr argymhelliad cyffredinol, felly, yw bod ffocws cymorth i israddedigion yn symud tuag at drefniadau cymorth cynhaliaeth gwell i'r holl fyfyrwyr israddedig llawn amser a rhan-amser, gyda'r lefel uchaf o gymorth grant yn talu cost lawn cynhaliaeth i'r rhai sydd ei angen fwyaf, a benthyciadau i dalu ffioedd dysgu.'[3]

23. Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd ac a gyflwynwyd gan Adolygiad Diamond mae Llywodraeth Cymru'n cytuno bod achos dros newid wedi'i ddangos. Mae'r system a ddisgrifir gan Adolygiad Diamond yn darbwyllo'n llwyr, ac mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu symud yn gyflym i roi'r argymhellion ar waith.

## Ein cynigion

24. Rydym wedi ystyried argymhellion Panel Adolygu Diamond o ran pa mor gynaliadwy ac ymarferol ydynt, ac yng ngoleuni ystyriaethau cyllidebol parhaus. Mae argymhellion y Panel wedi llywio ein cynigion ar gyfer cyllid cymorth i fyfyrwyr, sydd wedi'u nodi isod. Bydd ein cynigion yn cefnogi pum egwyddor graidd a fydd yn:

- cynnal egwyddor cyffredinoliaeth o fewn system gynyddol;
- dull 'system gyfan', ar draws modd a lefel astudio;
- rhannu buddsoddiad rhwng y llywodraeth a'r rhai sy'n elwa'n uniongyrchol;

---

[2] *Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru*. Ar gael yn http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/160927-he-review-final-report-cy.pdf

[3] *Yr Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru*, tud.39.

- gwella hygyrchedd, gan leihau rhwystrau i astudio megis costau byw;
- sicrhau bod cymorth i fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio unrhyw le yn y DU yn gludadwy.

25. Rydym yn credu y bydd ein cynigion yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd. Mae'r cynigion yn cysylltu'n fwyaf agos â'r amcanion canlynol o sicrhau Cymru ffyniannus (h.y. datblygu 'poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth'), a sicrhau Cymru fwy cyfartal ('galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgyclhiadau') ac mae ganddynt y potensial i gefnogi'r amcanion hynny.

26. Mae ymateb Llywodraeth Cymru'n awgrymu ein bod ni'n gweithredu'r newidiadau i gymorth i fyfyrwyr o 2018 ymlaen (lle bo'n bosibl). Bydd y newidiadau i'r system cymorth i fyfyrwyr yn cael eu cyflwyno dros gyfnod o bedair blynedd wrth i'r cohort cyfredol o fyfyrwyr orffen eu cyrsiau – mae hyn yn rhoi mwy o amser i Lywodraeth Cymru ddatblygu a gweithredu'r newidiadau eraill i system gyllido a rheoleiddio addysg uwch fel yr amlinellir yn ymateb Llywodraeth Cymru.

**Darpariaeth i israddedigion llawn amser a rhan-amser**

27. Byddwn yn cyflwyno'r system ganlynol o gymorth i fyfyrwyr o 2018/19 ymlaen, yn amodol ar lunio'r rheoliadau angenrheidiol a derbyn cadarnhad y gall y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr eu gweithredu yn unol â'r amserlen arfaethedig.

***Cymorth cynhaliaeth***

- Bydd grant cynhaliaeth cyffredinol nad yw'n amodol ar brawf modd o £1,000 ar gael i bob myfyriwr cymwys sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru – bydd ar gael pro-rata i fyfyrwyr rhan-amser h.y. bydd myfyrwyr sy'n astudio ar ddwyster o 50% yn derbyn £500.
- Bydd grant ychwanegol sy'n amodol ar brawf modd ar gael i dalu costau byw. Rydym yn cynnig cyflwyno tapr prawf modd ar gyfer cymorth Grant Cynhaliaeth sy'n fwy hael na'r tapr cyfredol ar gyfer incwm aelwydydd (hyd at £59,200).
- Bydd uchafswm y grant cynhaliaeth yn cael ei osod ar y lefel a argymhellwyd gan Adolygiad Diamond, yn y lle cyntaf, gyda benthyciad ychwanegol yn cael ei ddarparu i sicrhau bod cyfanswm y cymorth cynhaliaeth yn adlewyrchu cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol.
- Bydd Benthyciadau Cynhaliaeth ar gael i'r rhai nad ydynt yn gymwys am grant. Ni fydd y Benthyciad Cynhaliaeth yn amodol ar brawf modd i fyfyrwyr o aelwydydd incwm uwch sy'n derbyn grant sy'n llai na'r uchafswm.
- Bydd faint o fenthyciad sydd ar gael yn gyfwerth â chyfanswm y cymorth cynhaliaeth, llai unrhyw grant sy'n dibynnu ar brawf modd.
- Bydd myfyrwyr rhan-amser yn derbyn, ar sail pro-rata, fersiwn wedi'i haddasu o'r cymorth cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyrwyr israddedig llawn amser (h.y. Grant Cynhaliaeth nad yw'n amodol ar brawf modd o £1,000, gyda grant amodol ar brawf modd ychwanegol hyd at uchafswm yn seiliedig ar £6,000 ar gyfer cwrs llawn amser cyfwerth ond dylai'r uchafswm grant fod ar gael hyd at incwm aelwyd o £25,000).

- Bydd y grantiau a'r lwfansau wedi'u targedu sydd ar gael i fyfyrwyr israddedig, sef y Grant Gofal Plant, Grant Oedolion Dibynnol, Lwfans Dysgu i Rieni a Lwfans Myfyrwyr Anabl, yn parhau.

***Cymorth ffioedd dysgu***

Myfyrwyr llawn amser:

- Byddwn yn cyflwyno benthyciad myfyriwr cymorthdaledig ychwanegol yn lle'r Grant Ffioedd Dysgu cyfredol i israddedigion llawn amser, hyd at y lefel ffioedd uchaf perthnasol yn 2018/19 (£9,000 yng Nghymru, a £9,250 yng ngweddill y DU ar hyn o bryd). Bydd hwn ar gael ble bynnag mae myfyrwyr yn astudio yn y DU.
- Bydd yr opsiwn ar gyfer taliad uniongyrchol neu ad-dalu cynnar yn parhau i'r rhai sy'n dymuno ad-dalu eu benthyciad.
- Bydd ad-daliadau benthyciadau yn parhau ar gyfradd o 9% o gyflog graddedigion uwchben £21,000 (wedi'i rewi tan 2021) a'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir gydag ad-daliadau a bennwyd gan Drysorlys EM (0.7% ar hyn o bryd). Dyma bolisi ad-dalu y DU gyfan.

  Myfyrwyr rhan-amser:

- Bydd benthyciadau ffioedd dysgu'n parhau i fod ar gael i'r myfyrwyr cymwys hynny sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, ac sy'n astudio ar ddwyster o fwy na 25%.
- Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ddarparu cyllid grant i CCAUC fel cymhorthdal ar gyfer cyrsiau rhan-amser. Mae hyn yn golygu y bydd myfyrwyr rhan-amser yn parhau i orfod talu ffioedd cymedrol.
- Bydd benthyciad ffioedd dysgu â chymhorthdal ar gael i fyfyrwyr rhan-amser i dalu'r ffi lawn wedi'i chymedroli.
- Bydd y benthyciad ffioedd dysgu, cymorth cynhaliaeth, a'r grant sefydliadol i'r SAU yn cael eu darparu i fyfyrwyr rhan-amser sy'n astudio ar ddwyster o fwy na 25%.

28. Mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i symud i system o daliadau cymorth cynhaliaeth misol (yn hytrach na bob tymor). Fodd bynnag, nid yw'n bosibl i ni gyflwyno taliadau cynhaliaeth misol mewn pryd ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd 2018/19 ac mae angen gweithio trwy nifer o ganlyniadau cyn cyflwyno taliadau cynhaliaeth misol, er enghraifft, effaith trefniadau rhentu ar lety. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i weithio gyda'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i weithredu system o daliadau cymorth cynhaliaeth misol cyn gynted ag sy'n ymarferol.

29. Mae Llywodraeth Cymru'n credu y bydd cyflwyno'r system hael hon o gymorth yn annog myfyrwyr o bob cefndir i ddilyn addysg uwch. Fel gyda phob cymorth i fyfyrwyr sy'n seiliedig ar alw, mae angen sicrhau bod y polisi'n parhau'n gynaliadwy yn yr hirdymor. Felly bydd Llywodraeth Cymru angen sicrhau bod risgiau wedi'u dosbarthu'n deg (ar gyfer cyrsiau llawn amser, rhan-amser ac ôl-raddedig) rhwng y Llywodraeth, sefydliadau AU a myfyrwyr. Rydym felly'n cynnig sefydlu gweithgor i ystyried y ffordd orau o wneud hyn. Bydd y grŵp hwn yn ystyried pa mor gynaliadwy

yw'r cysylltiadau â'r Cyflog Byw Cenedlaethol, yn enwedig cydbwysedd benthyciadau a grantiau a chyflwyno mesurau rheoli ar niferoedd myfyrwyr/costau.

30. Mae Llywodraeth Cymru yn bryderus hefyd am sefydlogrwydd, cynaliadwyedd a chymhlethdod system sy'n galluogi myfyrwyr sy'n astudio'n rhan-amser ar ddwyster is na 25% i fanteisio ar gymorth i fyfyrwyr. Er na allwn gynnig cymorth ar gyfer y cyrsiau hyn rydym yn awyddus i annog myfyrwyr sy'n dymuno astudio ar ddwyster is.

Ein cwestiynau

1. Oes yna broblemau mawr o ran gweithredu'r newidiadau i'r pecynnau cymorth ffioedd dysgu a chymorth cynhaliaeth a fydd yn effeithio ar amserlen ymateb Llywodraeth Cymru?

2. Oes yna ganlyniadau anfwriadol tebygol o weithredu'r newidiadau i'r pecynnau cymorth ffioedd dysgu a chymorth cynhaliaeth?

3. Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhannu risgiau a rheoli costau/niferoedd y myfyrwyr sy'n gymwys am gymorth i fyfyrwyr?

4. A fydd gweithredu'r cynigion hyn yn rhoi unrhyw grŵp penodol o dan anfantais?

5. Mae Llywodraeth Cymru am gynyddu nifer y cyrsiau sydd ar gael ar ddwyster is. Sut allwn ni annog myfyrwyr i astudio cyrsiau â dwyster o lai na 25% heb ddarparu cymorth iddynt?

6. Pa effeithiau a chanlyniadau anfwriadol a fydd yn deillio o symud i daliadau cynhaliaeth misol?

**Cyflwyno system ran-amser wedi'i rheoleiddio'n llawn**

31. Mae ymateb Llywodraeth Cymru'n cynnig ein bod ni'n datblygu system ran-amser wedi'i rheoleiddio'n llawn erbyn 2021. Byddai symud i system wedi'i rheoleiddio'n llawn yn golygu y byddai angen i ddarparwyr cyrsiau AU rhan-amser sy'n dymuno i'w cyrsiau gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth myfyrwyr Llywodraeth Cymru wneud cais i CCAUC i gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad. Yn amodol ar gymeradwyo eu cynlluniau byddai gofyn i ddarparwyr gydymffurfio â: darpariaethau mynediad teg y cynlluniau hynny, terfynau ffioedd dysgu, gofynion asesu ansawdd CCAUC a chod rheoli ariannol CCAUC.

Ein cwestiynau

7. Sut y bydd symud i system wedi'i rheoleiddio'n llawn yn effeithio ar ddarparwyr rhan-amser yng Nghymru?

8. Ydych chi'n credu y bydd unrhyw y polisi hwn yn peri anfantais i unrhyw grwpiau penodol?

9. Ydych chi’n credu bod y nod o gael system ran-amser wedi’i rheoleiddio’n llawn erbyn 2021 yn amserlen realistig?

**Darpariaeth Gradd Meistr Ôl-raddedig a Addysgir**

32. Byddwn yn cyflwyno’r newidiadau canlynol o 2018/19 ymlaen, yn amodol ar lunio’r rheoliadau angenrheidiol, a derbyn cadarnhad bod y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn gallu eu gweithredu yn unol â’r amserlen arfaethedig:

- Byddwn yn paratoi deddfwriaeth i alluogi cyfraniad at gostau dilyn cwrs ôl-raddedig. Bydd hyn yn cynnwys grant ar yr un lefel â’r grant i fyfyrwyr israddedig llawn amser, gyda benthyciad ychwanegol ar gael hyd at gyfanswm lefel cymorth o £17,000. Gall myfyrwyr ddefnyddio’r cyfraniad cyffredinol i dalu ffioedd dysgu neu gostau cynhaliaeth. Bydd y cymorth hwn ar gael ar gyfer cyrsiau llawn amser (blwyddyn neu ddwy flynedd). Bydd astudiaeth ran-amser yn cael ei chefnogi hefyd pan fo modd cwblhau cyrsiau mewn cyfnod nad yw’n fwy na dwywaith y cyfnod mae’n ei gymryd i gwblhau’r cwrs llawn amser cyfwerth fel arfer, neu lle nad oes gan gwrs rhan-amser gwrs llawn amser cyfwerth, ei bod hi’n bosibl ei gwblhau mewn hyd at dair blynedd academaidd. Bydd y cymorth hwn yn gludadwy a bydd ar gael i fyfyrwyr ble bynnag maent yn dewis astudio yn y DU.
- Bydd myfyrwyr ôl-raddedig yn gymwys i dderbyn cymorth ar yr un lefel â’r hyn sydd ar gael i fyfyrwyr israddedig, ond fel cyfraniad at gostau yn hytrach na chymorth ffioedd dysgu a chymorth cynhaliaeth penodol. Rydym yn credu y bydd hyn yn sicrhau system sy’n lleihau biwrocratiaeth ac yn rhoi hyblygrwydd i’r myfyrwyr.
- Byddwn yn cyflwyno proses ailymgeisio i fyfyrwyr sydd am astudio cwrs ôl-raddedig (fel blwyddyn astudio ychwanegol ar ben eu cwrs gradd israddedig neu gwrs gradd Meistr annibynnol)

Ein cwestiynau

10. Oes yna broblemau mawr y dylem eu hystyried wrth gyflwyno ein cynigion ar gyfer cymorth i fyfyrwyr ôl-raddedig?

11. Oes yna ganlyniadau anfwriadol tebygol o weithredu’r cynigion hyn?

12. A fydd gweithredu’r cynigion hyn yn rhoi unrhyw grŵp penodol o dan anfanntais?

13. Rydym yn credu y byddai’n gymhleth a chostus i reoleiddio’r system ôl-raddedig yn llawn – ydych chi’n cytuno ac os na, sut fyddech chi’n gweithredu system wedi’i rheoleiddio’n llawn yng Nghymru?

14. Oes yna unrhyw ffordd arall o weithredu’n cynigion ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig a fyddai’n hyrwyddo mynediad cyfartal yn well?

**Myfyrwyr â phrofiad o fod mewn lleoliad gofal**

33. Roedd Adolygiad Diamond yn cynnwys cynigion penodol ar gyfer myfyrwyr sydd wedi bod mewn lleoliad gofal ac yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru wneud pob ymdrech i nodi'r rhai sydd â phrofiad o ofal ac y dylai myfyrwyr o'r fath dderbyn uchafswm y Grant Cynhaliaeth.

34. Bydd Llywodraeth Cymru'n paratoi deddfwriaeth a fydd yn galluogi'r rhai sydd wedi bod mewn lleoliad gofal i dderbyn y lefel uchaf o grant cynhaliaeth. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i sicrhau ein bod ni'n gallu ymestyn y cymorth hwn i fyfyrwyr eraill a allai fod wedi bod mewn sefyllfa debyg, er enghraifft pobl â chyfrifoldebau gofalu. Fodd bynnag, mae yna nifer o gymhlethdodau gweinyddol ac ymarferol yn gysylltiedig â nodi ac asesu'r unigolion hyn. Mae ymateb Llywodraeth Cymru'n cadarnhau y byddwn yn gweithio gyda UCM, awdurdodau lleol a CCAUC i ystyried sut y gallwn ddarparu rhagor o gymorth i'r grwpiau hyn, ond byddem yn croesawu'ch sylwadau ar sut i gyflawni hyn.

Ein cwestiynau

15. A fydd yna broblemau gweithredu'n deillio o ddarparu cymorth i fyfyrwyr sydd â phrofiad o fod mewn lleoliad gofal?

16. Sut allwn ni ddarparu rhagor o gymorth i fyfyrwyr sy'n ofalwyr?

17. Oes yna ganlyniadau anfwriadol tebygol o weithredu'r cynigion hyn?

18. A fydd gweithredu'r cynigion hyn yn rhoi unrhyw grŵp penodol o dan anfantais?

**Astudiaeth drawsffiniol**

35. Mae Llywodraeth Cymru'n credu bod ganddi gyfrifoldeb i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, ble bynnag maent yn dewis astudio ac rydym yn derbyn y dylai cymorth i fyfyrwyr fod yn gludadwy ac ar gael i fyfyrwyr sy'n dewis astudio yn unrhyw le yn y DU. Fodd bynnag, mae angen ystyried yn ofalus lefel y cymhlethdod sy'n gysylltiedig ag ymestyn cymorth i fyfyrwyr sy'n dewis astudio yn yr UE (yn enwedig yn sgil canlyniad refferendwm yr UE) a goblygiadau cyllido a gweinyddol posibl gweithredu cynllun o'r fath yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys mesur lefel y galw posibl gan ddysgwyr am gymorth o'r fath.

36. Byddwn yn cynnal cynllun peilot, yn 2018/19 o bosibl, i bwyso a mesur pa mor ymarferol yw ymestyn y pecyn cymorth i fyfyrwyr y tu hwnt i'r DU a'r UE. Er mwyn bwrw ymlaen â hyn, efallai y byddwn yn sefydlu gweithgor byrdymor i lunio cynllun bychan ac yn ehangu'r gwaith os bydd yr adborth o'r cynllun peilot yn gadarnhaol.

| |
|---|
| Ein cwestiynau<br><br>19. Beth yw'r ffordd orau o weithredu a gweinyddu'r cynllun peilot arfaethedig ar ymestyn y pecyn cymorth i fyfyrwyr y tu hwnt i'r DU?<br><br>20. A ddylai'r cynllun peilot ystyried unrhyw faterion penodol?<br><br>21. Sut fyddech chi'n rheoli costau a galw am unrhyw gynllun yn y dyfodol sy'n ymestyn cymorth y tu hwnt i unrhyw gynllun peilot? |

**Cymwysterau cyfwerth neu is**

37. Yn gyffredinol, nid yw myfyrwyr sydd â gradd anrhydedd neu gyfwerth yn y DU yn gymwys am gymorth i fyfyrwyr. Mae yna rai eithriadau i'r rheol hon. Mae'r cyrsiau hyn yn cynnwys cyrsiau ôl-raddedig fel y Dystysgrif Addysg Ôl-raddedig (TAR) a rhai cyrsiau ôl-raddedig mwy penodol lle mae gradd anrhydedd yn ofyniad ar gyfer derbyn, er enghraifft cyrsiau meddygol a deintyddol mynediad i raddedigion. Mae cymorth cyfyngedig wedi bod ar gael i'r cyrsiau hyn dan rai amgylchiadau ers tro bellach.

38. Buom yn ymgynghori ar ymestyn cymorth i fyfyrwyr ar amrywiaeth o gyrsiau yn gynharach yn 2016 (https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/cymorth-ar-gyfer-astudiaethau-ol-radd-graddau-peirianneg-technoleg-neu-gyfrifiadureg). Yn dilyn yr ymatebion a dderbyniwyd, o flwyddyn academaidd 2017/18 ymlaen bydd Llywodraeth Cymru'n cynnig pecyn o gymorth rhan-amser i fyfyrwyr cymwys sy'n astudio cyrsiau gradd anrhydedd rhan-amser yn y meysydd canlynol:

- Peirianneg, technoleg a chyfrifiadureg;
- Pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth;
- Gwyddorau biolegol;
- Gwyddorau milfeddygol, amaethyddiaeth a phynciau cysylltiedig;
- Gwyddorau ffisegol;
- Gwyddorau mathemategol;
- Cymraeg.

39. Rydym yn barod i ehangu'r rhestr hon lle mae tystiolaeth yn awgrymu bod rheswm dros wneud hynny – er enghraifft, i ddiwallu anghenion sgiliau penodol.

| |
|---|
| Ein cwestiynau<br><br>22. Ai'r meysydd pwnc uchod yw'r rhai pwysicaf yng nghyd-destun cymwysterau cyfwerth neu is (ELQ)?<br><br>23. Oes yna gyrsiau neu feysydd pwnc eraill y dylai Llywodraeth Cymru ystyried eu cynnwys? Os felly, pam? |

**Materion eraill**

40. Gofynnwyd cyfres o gwestiynau mewn perthynas â un o’n cynigion. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu sylwadau adeiladol ar unrhyw agwedd ar y cynigion hyn hefyd.

**Ein cwestiwn**

24. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar unrhyw agwedd arall ar gynigion y ddogfen hon?

## Effaith

41. Rydym yn credu y bydd cyflwyno’r cynigion hyn yn annog myfyrwyr o bob cefndir i ddilyn addysg uwch a bod ganddynt y potensial i sicrhau mynediad mwy cyfartal.

## Gweithredu

42. Yn dilyn ymgynghori ac unrhyw newidiadau eraill a wnawn i fanylion y cynigion hyn, rydym yn bwriadu gweithredu’r trefniadau newydd o 2018/19 ymlaen. Mae’n debyg y bydd angen is-ddeddfwriaeth ac rydym yn rhagweld y byddwn yn cyflwyno rheoliadau drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng ngwanwyn 2017.

## Ymatebion

43. Mae cwestiynau penodol wedi’u rhestru yn y ffurflen ymateb ar wahân ac mae croeso i chi ddarparu atebion i’r cwestiynau hyn neu roi sylwadau mwy cyffredinol. Gellir cyflwyno’r rhain yn electronig neu ar ffurf copi caled, gan ddefnyddio’r manylion cyswllt ar dudalen 2 y ddogfen hon.